Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn yr
**Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 6 Ionawr 2020 am 7:00p.m.**

**PRESENNOL**: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Menna Jones, Dave Snape a Heather Williams.

## 53. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Jim Bryan ac Anne Roberts. Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o'r Cyngor Tref.

## 54. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 55. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2019 yn gywir.*

## 56. MATERION YN CODI
Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyrau diolch i'r cwmnïau a oedd wedi cynorthwyo gyda gwaredu'r goeden Nadolig wedi'i difrodi a gosod y goeden newydd ac ailosod y goleuadau arni. .

## 57. DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 RHAN 1 – ADRAN 6 – Y DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU
Hysbyswyd yr aelodau am y dyletswydd uchod, a rhannwyd ffurflen enghreifftiol ar gyfer cofnoi gweithgareddau perthnasol y Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth a sicrhau llenwi'r ffurflen gofnodi.*

## 58. TENDR TORRI GLASWELLT
Gofynnwyd i'r aelod ystyried cynnwys y tendr torri glaswellt ar gyfer 2020-21, yn dilyn trafodaethau am ardaloedd blodau gwylch a thoriadau bioamrywiaeth.
***PENDERFYNWYD**: anfon dogfennau tendr ar sail y flwyddyn flaenorol, gyda phrisiau ar gyfer pob ardal unigol i'w thorri, ac yn datgan bod hyn yn ddarostyngedig i'w adolygu.*

## 59. GOLEUADAU NADOLIG AR GYFER 2020 A'R BLYNYDDOEDD NESAF
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y trefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2020 ymlaen.
***PENDERFYNWYD**: cael dyfynbrisiau ar gyfer y goleuadau Nadolig, yn benodol llogi am 12 mis arall.*

## 60. AMCANGYFRIFON ARIANNOL AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020-21
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chytuno ar wariant y Pwyllgor Amwynderau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnodd yr aelodau i amcangyfrifon y flwyddyn ariannol gyfredol gael eu dosbarthu, ac ychwanegu pennawd ar gyfer plannu coed yn dilyn yr arbedion yn sgîl lleihau nifer y coed Nadolig.
***PENDERFYNWYD**: dosbarthu'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac ychwanegu pennawd ar gyfer plannu coed.*

## 61. TÎM TREF TACLUS
Dywedodd y Clerc y derbyniwyd cais gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i ddefnyddio offer y Tîm Tref Taclus er mwyn paentio'r rheiliau a chwynu'r ardal o flaen Canolfan Naylor Leyland.
***PENDERFYNWYD**: cytunodd yr aelodau y caiff gwirfoddolwyr CGGSDd ddefnyddio offer y Tîm Tref Taclus yng Nghanolfan Naylor Leyland.*

## 62. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 3 Chwefror 2020 am 7:00pm.*